Fy Nghyf: REC26/STUDID
Eich Cyf:

16 Ebrill 2026

At Riant/Rieni/ Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid:
ENW
CYFEIRIAD

Annwyl Riant/Rieni/Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid

**Derbyn i Ysgol Gynradd: Medi 2026**

Rwyf yn ysgrifennu i'ch hysbysu o ganlyniad eich cais i Ysgol Gynradd. Mae'n flin gennyf ddweud nad wyf yn gallu cynnig lle i'ch plentyn yn yr ysgol gymunedol ganlynol/ysgolion cymunedol canlynol:

[YSGOL]
[YSGOL]
[YSGOL]

**Os ydych wedi gwneud cais am le mewn ysgol Ffydd nad yw'n ymddangos uchod, dylech aros am ohebiaeth gan yr ysgol honno.**

Pam na chafodd fy mhlentyn le yn fy ysgol(ion) o ddewis?

Cawsom fwy o geisiadau na'r lleoedd oedd ar gael yn yr ysgol/ysgolion, ac nid oedd eich plentyn yn gymwys i gael lle o dan feini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig y Cyngor yn y cylch dyrannu cychwynnol. Nid yw'r Cyngor fel arfer yn derbyn mwy o geisiadau na'r uchafswm capasiti neu'n mynd yn groes i gyfyngiadau a osodir gan reoliadau meintiau dosbarth statudol sy'n cyfyngu meintiau dosbarth babanod i uchafswm o 30 o ddisgyblion. Mae crynodeb o'r dull dyrannu lleoedd ar gael ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk/derbyniadaucynradd)

Beth sy'n digwydd nawr?

1. Mae eich plentyn wedi ei roi ar restr aros yr ysgol(ion). Os bydd eich plentyn yn gymwys am le yn eich ysgol(ion) o ddewis yn hwyrach, bydd y tîm Derbyn i Ysgolion yn cysylltu â chi. Sylwer bod lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail y meini prawf cyhoeddedig, nid ar hyd y cyfnod mae'ch plentyn wedi bod yn aros am le.

   Bydd eich plentyn yn parhau ar y rhestr aros tan 30 Medi 2026 oni ddywedwch wrth y Cyngor nad ydych bellach am fod ar y rhestr. **Ar ôl y dyddiad hwn, bydd enw'ch plentyn yn cael eu symud oddi ar y rhestr a bydd angen i chi wneud cais 'o fewn blwyddyn' newydd i barhau ar y rhestr**.

2. Dylech chi hefyd wneud cais am leoedd mewn ysgolion amgen. Ni fydd ymgeisio felly yn effeithio ar eich lle ar restr aros eich ysgol o ddewis ac ni fydd yn effeithio ar eich hawl i apelio. Mae lleoedd ar gael ar hyn o bryd yn yr ysgolion ar y rhestr amgaeedig

   Gallwch hefyd wneud cais yn uniongyrchol i unrhyw ysgol Gatholig, ysgol Eglwys yng Nghymru neu ysgol sefydledig.

   Mae ffurflenni cais i'w derbyn i ysgolion cymunedol ar gael trwy o wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk/derbyniadaucynradd) Er mwyn i'ch cais gael ei ystyried yn y cylch nesaf, rhaid derbyn eich ffurflen erbyn 30 Ebrill 2026.

A allaf apelio yn erbyn y penderfyniad?

Rydych yn gallu apelio am le yn eich ysgol ddewisol. I gychwyn apêl, rhaid i chi gwblhau ffurflen apelio, sydd ar gael o wefan y cyngor www.caerdydd.gov.uk/apeliadauysgol. Rhaid dychwelyd y ffurflen i *Clerc* y *Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion Annibynnol* yn y cyfeiriad a roddir ar y ffurflen erbyn **30 Ebrill 2026** fan bellaf.

Mae'n bosibl y collwch eich hawl i apelio os derbynnir hi wedi'r dyddiad hwn. Efallai y gwnaiff y Panel ystyried clywed eich apêl os cafodd ei chyflwyno'n hwyr oherwydd amgylchiadau anodd neu am nad oeddech yn deall yr hyn yr oedd angen ei wneud. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd i ystyried eich apêl os na chyflwynwch hi erbyn y dyddiad cyhoeddedig.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses apelio ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/apeliadauysgol

Sut gallaf ddysgu mwy?

Cydnabyddir bod hwn yn gyfnod anodd o rieni a phlant sydd heb gael lle mewn ysgol ar gyfer Medi 2026.

Mae Llyfryn Gwybodaeth y Cyngor ar gyfer Rhieni yn rhoi manylion pob ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd ac mae'n esbonio polisi'r Cyngor o ran derbyn i ysgolion. Mae ar gael ar wefan y Cyngor, ar www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion

Mae cyngor teithio i'r ysgol ar gael ar dudalen we Cadw Caerdydd i Symud https://keepingcardiffmoving.co.uk/

Bydd Cyngor Caerdydd yn cynnig teithio i'r ysgol am ddim yn unig os bydd ysgol agosaf sydd ar gael wedi cael ei chymhwyso ar ei gyfer, ac mae'n fwy na 2 milltir i gerdded o gartref y plentyn. Ni fydd plentyn yn gymwys i dderbyn teithio i'r ysgol am ddim, beth bynnag, pa mor bell yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol, os na chafodd lle yn yr ysgol agosaf sydd ar gael ei gais, neu os bydd y rhiant/plentyn wedi gwrthod cynnig lle yn eu hysgol agosaf sydd ar gael.

Mae gwybodaeth ynghylch Cludiant Ysgol ar gael ar wefan y Cyngor ar:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Trafnidiaeth-Ysgol/Pages/default.aspx

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion drwy C2C ar 02920 872088, neu e-bostio derbyniadaucynradd@caerdydd.gov.uk

Yn gywir,

**Tîm Derbyn i Ysgolion**
**Addysg a Dysgu Gydol Oes Cyngor Dinas Caerdydd**